

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol
[Â rhybudd]
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr
Iolo Jones a'i Bartneriaid**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cynnwys	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	7
	Profiad y Claf.....	7
	Cyflenwi'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	9
	Rheoli ac Arweinyddiaeth.....	11
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	13
6.	Y Camau Nesaf.....	15
	Atodiad A.....	16

Cyflwyniad

Ar 11 Tachwedd 2014, gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gyflawni arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Iolo Jones a'i Bartneriaid yn 28 Stryd Thomas, Caergybi, LL65 1RR, o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheoli ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r safonau a geir yn *Gwneud yn Dda*, *Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*¹.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r adeilad

¹Daeth *Gwneud yn Dda*, *Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru* i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/919/GwneudynDda.pdf>

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis a'i wefan.
- Dadansoddiad o'r 61 o holiaduron cleifion AGIC a dderbyniwyd gennym

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol, er mwyn sicrhau eu bod nhw'n derbyn adborth priodol.

Hysbysir y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd am unrhyw bryderon sy'n codi yn ystod arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Caiff canfyddiadau o'r fath eu manylu, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, o fewn Atodiad A o'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

Cyd-destun

Mae practis deintyddol Iolo Jones yn darparu gwasanaethau ar gyfer tua 1,900 o gleifion ar Ynys Môn, Sir Fôn. Cynhwysir cleifion sy'n teithio o ardal Bangor a Chaernarfon yng Ngwynedd. Mae'r Practis yn gwasanaethu canran gyfartal o gleifion y GIG a chleifion preifat.

Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r tîm o staff yn cynnwys dau ddeintydd, un glanweithydd/therapydd, chwe nyrs ddeintyddol ac un derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archwilio, gwneud diagnosis a chynllunio triniaethau (gan gynnwys pelydrau-x)
- Cyngor a thriniaethau ataliol
- Triniaethau clefyd y deintgig (triniaethau periodontol)
- Llenwadau, llenwadau'r gwreiddyn, coronau a phontydd
- Tynnu dannedd (a thriniaethau llawfeddygol eraill)
- Hylendid a thriniaethau'r geg

Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Iolo Jones a'i Bartneriaid yn bodloni'r safonau gofal a geir yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well*: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Gwnaethom dderbyn 61 holiadur cleifion wedi'u gwblhau, a oedd yn dangos lefel uchel o foddhad ar y gwasanaeth. Rydym wedi argymhell y dylai'r practis adolygu sut y rhennir gwybodaeth â chleifion, gan gynnwys y weithdrefn gwyno. Dylai'r wybodaeth gael ei harddangos mewn lle amlwg o fewn y practis. Cynhwysodd enghraifft o sylwadau cleifion y canlynol (trwy ganiatâd):

'Wedi adfer fy ffydd mewn deintyddion! Practis hyfryd – staff hyfryd!'

'Rwyf wedi derbyn y sylw gorau erioed gan staff a deintyddion.'

'Practis croesawgar iawn sy'n cynnig lefelau uchel o ofal a gwasanaeth, yn enwedig pan wy'n dod â'm mab (sy'n ddwy oed yn unig). Mae'r holl staff yn dda iawn gydag ef, yn ceisio ei ddifyrru a gwneud iddo deimlo'n gyfforddus mewn awyrgylch anghyfarwydd. Methu gofyn am fwy.'

'Rwyf wedi cael problemau gyda'm dannedd. Maent wedi derbyn triniaeth brydlon, a pharchwyd fy nheimpladau a'm nerfau! Triniaeth a gwasanaeth ardderchog – diolch o galon.'

'Fel ffrindiau gorau – gwasanaeth ardderchog.'

Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd er mwyn sicrhau diogelwch a lles pobl. Roedd cadw cofnodion gan y deintyddion a'r glanweithydd yn gyson dda, a gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn fodern ac wedi'u cyfarparu'n dda. Yn un o'r ystafelloedd triniaeth, gwnaethom argymhell y dylid symud dau swits trydan ar gyfer peiriant pelydr-x.

Roedd y practis yn cael ei reoli'n dda, ac roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth gref. Gwelsom fod yr aelodau o staff yn frwdfrydig ac wedi eu hysgogi. Roeddent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm. Rydym wedi argymhell y dylai polisïau a gweithdrefnau'r practis gynnwys cyfeiriad at y canllawiau a'r ddeddfwriaeth berthnasol, lle bo hynny'n gymwys.

Gwelsom fod yr ystafelloedd aros yn lân, yn daclus ac yn rhydd o annibendod. Roed nifer a maint yr ystafelloedd hyn yn fwy na digonol ar gyfer y practis bach hwn. Mae rhai addasiadau wedi'u gwneud er mwyn galluogi pobl i symud o gwmpas yr ardaloedd aros mor annibynnol â phosibl. Rydym wedi argymhell y

dylid cynnal asesu risg pellach ynglŷn â chael mynediad i'r grisiau serth sy'n mynd i'r ystafell staff ac i ffwrdd.

Canfyddiadau

Profiad y Claf

Crynodeb

Roedd y 61 o holiaduron cleifion a ddychwelwyd yn dangos lefel uchel o foddhad ar y gwasanaeth. Rydym wedi argymhell y dylai'r practis adolygu sut y rhennir gwybodaeth â chleifion, gan gynnwys y weithdrefn gwyno. Dylai'r wybodaeth gael ei harddangos mewn lle amlwg o fewn y practis.

Ychydig o ddyddiau cyn yr arolygiad, cyhoeddodd AGIC holiadur i'r practis i'w ddosbarthu i gleifion. Rhoddwyd 61 holiadur wedi'u cwblhau inni mewn amlenni wedi'u selio, ddiwrnod yr arolygiad. Dangosodd ymatebion cleifion lefel uchel o foddhad ar y gwasanaeth. Atebodd pawb 'ie' i'r cwestiynau ynglŷn ag a yw tîm y practis yn rhoi croeso iddynt. Ychwanegodd llawer o gleifion sylwadau fel 'croeso cynnes iawn iawn' neu 'bob amser'. Dywedodd y cleifion i gyd eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Yn ogystal â'r cwestiynau 'ie/nage', gwnaeth 31 o gleifion gynnwys sylwadau am y staff a'r gwasanaethau a dderbyniwyd. Defnyddiwyd geiriau fel 'ardderchog', 'gwyb' ac 'o'r radd flaenaf'. Yn anffodus, roedd gormod o sylwadau (pob un ohonynt yn gadarnhaol) i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, rhannwyd y rhain â'r staff yn ystod yr arolygiad, a chynhwyswyd sampl ohonynt eisoes ar dudalen tri.

Ddiwrnod yr arolygiad, gwelwyd cleifion yn brydlon wrth iddynt gyrraedd. O'r herwydd, ni lwyddwyd i siarad ag ond un claf, a oedd hefyd yn ganmoliaethus iawn am y practis. Gwelwyd y claf hwn cyn amser ei apwyntiad, a dywedodd 58 o ymatebwyr yr holiadur nad oeddent wedi profi unrhyw oediadau o ran amser eu hapwyntiad. Dywedodd un claf mai dim ond unwaith mewn wyth mlynedd yr oedd wedi profi oediad, a dau glaf arall eu bod wedi profi oediad bychan. Rhoddir dewis i gleifion o gael eu hatgoffa trwy neges destun neu alwad ffôn ychydig o ddyddiau cyn eu hapwyntiad. Cadarnhawyd hyn gan y staff a'r claf a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Nid oedd naw o'r cleifion yn gwybod sut i ddefnyddio'r gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau, ac nid oedd 20 claf yn gwybod sut i wneud cwyn. Gwelsom fod rhif ffôn y gwasanaeth y tu allan i oriau wedi'i arddangos yn ffenest y dderbynfa ac yn y daflen wybodaeth. Roedd stoc o'r rhain ar gael yn y dderbynfa, ac roeddent yn cael eu dosbarthu i gleifion newydd. Roedd yr ysgrifen ar daflen wybodaeth cleifion yn fach, ac yng ngoleuni adborth y cleifion, gwnaethom argymhell y dylai'r practis adolygu'r ffordd mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno a'i harddangos.

Arddangoswyd hysbysiad ysgrifenedig/darluniadol yn yr ystafelloedd aros a oedd yn gwahodd cleifion i wneud sylwadau neu gwynion. Nid oedd cyfarwyddiadau pellach o ran pwy y dylid siarad ag ef, neu sut y gallent fynd ati i wneud eu sylwadau neu gwynion. Nid oedd taflenni cwyno ar gael yn y practis i esbonio'r gweithdrefnau hyn.

Argymhelliad

Adolygu sut y rhennir gwybodaeth â chleifion, gan gynnwys y weithdrefn gwyno. Dylid sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei harddangos yn fwy amlwg yn y practis.

Gwnaethom adolygu polisïau cwyno'r practis ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat. Roedd cysondeb o fewn y ddwy broses wahanol². Pan wnaethom edrych ar y llyfr cwynion, gwelsom ei fod yn wag; cadarnhaodd un o'r deintyddion ac un aelod o staff nad oedd unrhyw gwynion wedi bod dros y blynnyddoedd diweddf. Dangosodd y derbynnydd ymwybyddiaeth dda o'r weithdrefn gwyno, pe derbynnid cwyn.

Dywedwyd wrthym fod arolygon cleifion i gasglu adborth ynghylch y gwasanaeth wedi eu cyhoeddi'n fwyaf diweddar tua 18 mis yn ôl. Ni wnaethom edrych ar ymatebion i'r arolwg yn ystod yr arolygiad hwn. Gan nad oedd proses ffurfiol er mwyn casglu adborth cleifion yn rheolaidd hyd yn hyn, gwnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried datblygu system ar gyfer y pwrpas hwn a chofnodi unrhyw gamau gweithredu a wneir wedyn.

Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis, sydd â chanran sylweddol o gleifion sy'n siarad Cymraeg, ystyried cyflwyno'r wybodaeth yn ddwyieithog ac mewn fformatau sy'n addas ar gyfer pobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledau. Mae'n werth nodi bod y practis wedi cymryd camau yn y cyfeiriad hwn eisoes. Er enghraifft, gwnaethom edrych trwy lyfr wedi ei goladu gan y glanweithydd/therapydd deintyddol ar gyfer hylendid y geg, ac roedd hwn yn cynnwys gwybodaeth mewn amrywiaeth o gyfryngau fel testun, lluniau a darluniau eglurhaol. Roeddem yn teimlo bod hyn yn fethod effeithiol er mwyn addysgu cleifion – plant ac oedolion – am iechyd eu cegau a'u triniaethau.

²Cleifion y GIG: Gweithio i Wella yw'r drefn ar gyfer ymdrin ac ymateb i bryderon yng ngwasanaethau'r GIG, ac fe'i cyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011.

Cleifion preifat: Sefydlwyd y Gwasanaethau Cwynion Deintyddol i roi cymorth i gleifion preifat sy'n dymuno gwneud cwyn.

Cyflenwi'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd er mwyn sicrhau diogelwch a lles pobl. Roedd y cadw cofnodion gan y deintyddion a'r glanweithydd deintyddol yn gyson uchel, a gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn fodern ac wedi'u cyfarparu'n dda. Un un o'r ystafelloedd triniaeth, gwnaethom argymhell y dylid symud dau swits trydan ar gyfer peiriant pelydr-x.

Gwnaethom edrych ar gofnodion 15 o gleifion (sampl o bump gan bob deintydd a phump gan y glanweithydd deintyddol). Cedwid cofnodion ar system gyfrifiadurol sy'n cadw copi wrth gefn o bopeth yn ddyddiol. Roedd y safon o gadw cofnodion yn gyson dda ymhlith pob aelod o staff ac yn cynnwys hanes perthnasol cleifion a chynlluniau triniaethau ar eu cyfer. Gwelsom fod cleifion yn cael eu hatgyfeirio'n brydlon pe bai angen cyngor a thriniaethau arbenigol. Nid oedd tystiolaeth ddogfennol bod y deintyddion wedi cymryd camau dilynol yn sgil yr apwyntiadau hyn. O'r herwydd, gwnaethom argymhell y dylent gofnodi'r wybodaeth hon ar y system unwaith mae'n hysbys.

Cadarnhaodd trafodaethau â'r deintyddion fod offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau â llaw ym mhob ystafell driniaeth ar ôl i'r claf adael, cyn mynd â hwy i'r ystafell ddadheintio i'w sterileiddio. Roedd gan y practis ddau awtoclaf (offer sterileiddio), ond nid oedd yr un o'r rhain wedi ei ddylunio ar gyfer ailbrosesu'r offerynnau sydd â lwmen ³a ddefnyddid yn y practis. Felly, gwnaethom argymhell y dylid defnyddio math gwahanol o awtoglaf er mwyn dadheintio'r offerynnau hyn. Ar y diwrnod ar ôl yr arolygiad, anfonodd y practis gopi o ffurflen archebu a oedd yn cadarnhau eu bod yn prynu awtoclaf addas.

Nid oedd cyfleusterau golchi dwylo yn yr ystafell ddadheintio, ac argymhellwyd hyn yn gryf⁴. Gwelsom fod caniatâd cynllunio wedi'i gytuno i estyn y llawr daear er mwyn creu ystafell ddadheintio newydd, a fydd yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo. Mae'r prif ddeintydd yn disgwyl i'r gwaith hwn ddechrau'r haf nesaf (2015).

³Y darn tiwbwlwr o offeryn deintyddol llaw yw lwmen. Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05 yn rhoi canllawiau i bractisau deintyddol ar y mathau o offer sterileiddio a argymhellir ar gyfer offerynnau gwahanol, gan gynnwys offerynnau llaw sydd â lwmen.

⁴Yn unol â WHTM 01-05.

Prosesid y sganiau pelydr-x yn ddigidol, a gwelsom fod yr ansawdd yn rhagorol. Gwelsom wiriadau cynnal a chadw a thystysgrifau archwilio ar gyfer yr offer, ac roedd tystiolaeth bod y practis yn cydymffurfio â gwiriadau iechyd a diogelwch. Wrth edrych ar dystysgrifau hyfforddi staff, gwelsom fod yr hyfforddiant staff ar ymbelydredd ïoneiddio⁵ wedi'i ddiweddarau. Gwnaethom argymhell y dylid cyfuno rhai dogfennau mewn ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd benodedig, er mwyn dod o hyd i wybodaeth yn hawdd. Er mwyn i'r practis cydymffurfio â'r rheoliadau'n llwyr,⁶ gwnaethom argymhell y dylid symud dau swits yn un o'r ystafelloedd triniaeth. Yn ddefnyddiol, dylid lleolir y swits datguddio'n agosach at y drws er mwyn osgoi estyn y wifren gormod. Dylid lleolir y swits ynysu y tu allan i'r ystafell.

Argymhelliad

Dylid ystyried symud swits datguddio'r peiriant pelydr-x er mwyn osgoi estyn y wifren gormod a symud y swits ynysu i'r tu allan i'r ystafell driniaeth.

Cedwid cyflenwad o gyffuriau ar gyfer achosion brys,⁷ ac roedd y rhain i gyd wedi eu cadw'n mewn ffordd addas ac o fewn eu dyddiadau dod i ben. Gwnaethom argymhell y dylid cadw glwcos ar ffurf gel hefyd, a gwnaethom awgrymu y dylid defnyddio'r system gyfrifiadurol i fonitro dyddiadau dod i ben, yn hytrach na'u gwirio trwy gofnodion papur.

Gwelsom fod gan y practis gontract ar waith ar gyfer cael gwared â gwastraff clinigol a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom fod gwastraff yn cael ei waredu mewn bagiau a llestri storio o'r lliw cywir, yn unol ag argymhellion o dan ganllawiau rheoli gwastraff⁸.

⁵Yn unol â'u cyfrifoldeb yn ôl Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

⁶Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999

⁷Yn unol â dyletswydd sefydliadau gofal iechyd fel y gosodir gan y Cyngor Dadebru (DU)

⁸Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 07-01 Rheoli gwastraff gofal iechyd yn ddiogel

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb

Roedd y practis yn cael ei reoli'n dda, ac roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth gref. Gwelsom fod aelodau o staff yn frwdfrydig, wedi'u hysgogi, ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm. Rydym wedi argymhell y dylai'r polisïau gynnwys cyfeiriad at y canllawiau a'r ddeddfwriaeth berthnasol, lle y bo hynny'n gymwys.

Mae nifer o'r staff wedi gweithio i'r practis ers blynyddoedd maith; ymunodd y deintydd mwyaf diweddar â'r tîm ym mis Hydref 2013. Mae'r prif ddeintydd wedi gweithio i'r practis ers mis Awst 2003. Cymerodd y busnes drosodd ym mis Mehefin 2012. Cyn hynny, roedd yr un deintydd wedi bod yn rheoli'r practis am dros 50 mlynedd. Dywedodd un o'r gweithwyr hir ei wasanaeth fod y cyn-ddeintydd yn boblogaidd iawn ond hefyd bod y deintydd newydd wedi parhau gyda'r gwasanaeth rhagorol.

Dangosodd ymatebion i'r holiadur cleifion fod llawer ohonynt wedi'u cofrestru gyda'r practis ers amser maith (10-30 o flynyddoedd a mwy). Gwnaethant ddweud eu bod i gyd yn fodlon iawn ar y rheolaeth a'r arweinyddiaeth bresennol. Trwy drafodaethau â staff, cawsom fod y ddau ddeintydd yn uchel eu parch o fewn y practis. Disgrifiwyd y perthynas gweithio rhwng y staff fel un ardderchog, a dywedodd staff eu bod yn teimlo fel aelodau gwerthfawr o'r tîm.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cyfarfodydd tîm. Cynhelir cyfarfodydd bob mis, a dywedodd staff eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i rannu syniadau ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Anogwyd staff i ymchwilio i feysydd gwahanol a gwneud cyflwyniad byr yn y cyfarfod nesaf. Roedd enghreifftiau diweddar yn cynnwys polisïau tân a chyfrinachedd. Roedd yr arfer hwn yn amlwg pan wnaethom edrych ar sampl o'r cofnodion cyfarfodydd.

Cadarnhaodd staff fod y prif ddeintydd wedi cynnal eu harfarniad blynyddol yn ddiweddar, a oedd hefyd yn cynnwys eu cynllun hyfforddi ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau staff a oedd yn cynnwys cofnodion o'u datblygiad proffesiynol parhaus a thystysgrifau hyfforddiant am amrywiaeth o gyrsgiau yr oeddent wedi'u mynychu. Roedd y rhain yn cynnwys amddiffyn plant, dadebru cardio-pwlmonaidd, diagnosis, llawdriniaeth ac atgyweirio, proffesiynoldeb mewnol a moeseg. Roedd pob deintydd wedi mynychu cyfarfodydd a chynadleddau wedi'u trefnu gan y Cyngor Deintyddol Lleol. Dangoswyd inni gofnod blynyddol o'r holl hyfforddiant gorfodol ac arbenigol a oedd wedi'i wneud ac wedi'i gynllunio ar gyfer pob aelod o staff.

Roedd ffeil a oedd yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau'r practis wedi cael ei pharatoi ar gyfer yr archwilyr. Gwnaethom edrych ar sampl o'r rhain, a gwelsom eu bod yn rhoi canllawiau clir i staff ynglŷn â'r camau y dylid eu dilyn ac â phwy y dylid ei gysylltu yn achos digwyddiadau penodol. Lle y bo'n addas, nodwyd manylion cyswllt sefydliadau eraill fel yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac AGIC. Gwnaethom argymhell y dylai'r polisïau hyn gynnwys cyfeiriad at y canllawiau a'r ddeddfwriaeth statudol berthnasol, lle y bo'n gymwys.

Argymhelliad

Dylai polisïau gynnwys cyfeiriad at y canllawiau a'r ddeddfwriaeth statudol berthnasol, lle y bo'n gymwys.

Ansawdd yr Amgylchedd

Crynodeb

Gwelsom fod yr ystafelloedd yn lân, yn daclus ac yn rhydd o annibendod. Roedd nifer a maint yr ystafelloedd aros yn fwy na digonol ar gyfer y practis bach hwn. Mae gwaith addasu wedi'i wneud yn allanol ac yn fewnol er mwyn hyrwyddo annibyniaeth pobl. Rydym wedi argymhell y dylid cynnal asesu risg pellach ynglŷn â chael mynediad i'r grisiau serth sy'n mynd i'r ystafell staff ac i ffwrdd.

Mae'r practis wedi bod yn ei leoliad presennol ers 1998, a gellir cerdded iddo o ganol tref Caergybi. Roedd yn rhaid mynd trwy iât fach o flaen yr adeilad, ac roedd stepen fach o flaen y drws ffyrnt. Roedd llwybr ar oledf yn mynd o gwmpas yr adeilad i'r drws cefn, er mwyn galluogi mynediad i bobl sy'n defnyddio cadair olwynion. Gwelsom nad oedd y canllaw yn estyn ar hyd ond ychydig o'r llwybr hwn.

Roedd man derbyn caeedig o flaen yr adeilad a oedd â seddi yn y ffenestr ar gyfer cleifion. Roedd hefyd ystafell aros ar wahân, ystafell driniaeth, a thoiled i staff a chleifion ar bwys y fynedfa gefn ar y llawr daear. Roedd dwy ystafell driniaeth ac ystafell aros arall ar y llawr cyntaf.

Gwelsom fod yr ystafelloedd yn lân ac wedi'u goleuo a'u hawyru'n dda. Roeddent yn daclus ac yn rhydd o annibendod. Roedd cylchgronau wedi'u storio'n daclus mewn raciau cylchgronau yn y ddwy ystafell aros, ac roedd cyflenwad o daflenni gwybodaeth am iechyd y geg. Arddangoswyd gwybodaeth mewn fframiau lluniau, a oedd yn cynnwys y ffioedd ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG. Roedd hysbysiad ysgrifenedig a hysbysiad darluniadol a oedd yn gwahodd cleifion i wneud sylwadau neu gwynion. Gan nad oedd pob claf yn ymwybodol o fanylion cyswllt y gwasanaeth y tu allan i oriau na'r weithdrefn gwyno (fel y nodwyd eisoes yn adran profiad y claf yr adroddiad hwn), gwnaethom argymhell y dylai'r daflen a oedd yn gynnwys yr wybodaeth hon gael eu harddangos mewn rhagor o leoedd o gwmpas y practis.

Nid oedd cyfleusterau i gadw plant yn brysur yn yr ystafelloedd aros. Gwnaethom awgrymu y dylid ystyried y mater hwn, yn ogystal ag ystyried glendid er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Roedd drws y thoiled staff a chleifion ar y llawr daear yn llydan er mwyn rhoi mynediad haws i bobl sy'n defnyddio cadair olwynion. Roedd dau ganllaw cydio wedi eu gosod ar y waliau, gan hyrwyddo annibyniaeth ar gyfer pobl sydd ag anableddau. Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd yr ystafell hon o'r tu mewn i'r adeilad, roedd yn rhaid mynd trwy ddau ddrws arferol a choridor bach rhwng y

drws cefn a'r toiled. Gallai hyn achosi problemau ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwynion.

Nid oedd canllawiau nac addasiadau eraill o fewn yr adeilad ar gyfer pobl sydd ag anableddau. Cadarnhaodd staff eu bod yn cofnodi gwybodaeth am anghenion arbennig cleifion ar y cyfrifiadur a'u bod yn paratoi ar gyfer apwyntiadau pobl yn ôl y wybodaeth hon. Gwnaethom argymell, fodd bynnag, y dylid ystyried addasiadau eraill, yn ôl anghenion cleifion.

Gwnaethom godi pryderon ynglŷn â'r ystafell staff, lle roedd angen ymdopi â grisiau cul a serth. Eto, nid oedd canllaw. Ar adeg yr arolygiad, roedd dau aelod o staff yn disgwyl babi. Gwelsom fod asesiadau risg iechyd a diogelwch wedi cael eu gweithredu, ond oherwydd y risg posibl i bob aelod o staff wrth gyrraedd yr ystafell hon, gwnaethom argymell y dylid adolygu'r asesiad risg ar gyfer yr amgylchedd. Dylai hyn gynnwys cario diodydd poeth a stoc i'r ystafell hon ac fel arall.

Argymhelliad

Dylid cynnal asesiadau risg pellach ynglŷn â chael mynediad i'r ystafell staff sy'n cynnwys cario diodydd poeth a stoc.

Y Camau Nesaf

Mae canfyddiadau'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A o'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Gruffydd Iolo Jones a'i Bartneriaid yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses barhaus o arolygu.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Iolo Jones a'i Bartneriaid

Dyddiad yr Arolygiad: 11 Tachwedd 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
7	Adolygu sut y rhennir gwybodaeth â staff, gan gynnwys y weithdrefn gwyno, a sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei harddangos yn fwy amlwg yn y practis			
	Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru			
9	Dylid ystyried symud swits datguddio'r peiriant pelydr-x er mwyn osgoi estyn y wifren gormod a symud y swits ynysu i'r tu allan i'r ystafell driniaeth			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth			
11	Dylai polisiâu gynnwys cyfeiriad at y canllawiau a'r ddeddfwriaeth berthnasol, lle bo hynny'n gymwys.			
	Ansawdd yr Amgylchedd			
13	Dylid cynnal asesiadau risg pellach ynglŷn â chyrhaedd yr ystafell staff sy'n cynnwys cario diodydd poeth a stoc			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (wedi'i brintio):.....

Teitl:

Llofnod:.....

Dyddiad: